OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 1489 (Cy.154) (C.59)

# CEFN GWLAD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2004

*Wedi'i wneud - - 8 Mehefin 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 103(3), (4) a (5) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (“y Ddeddf”)(**1**):

### Enwi a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2004.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

### Y diwrnod penodedig

**2.** Y diwrnod penodedig i'r canlynol ddod i rym—

(a) adran 18 o'r Ddeddf (Wardeniaid);

(b) adran 20 o'r Ddeddf (Codau ymddygiad a gwybodaeth arall); ac

(c) adran 46(1)(a) o'r Ddeddf, ac, i'r graddau y mae'n ymwneud â hi, Rhan I o Atodlen 16 i'r Ddeddf (diddymu adran 193(2) o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 (“Deddf 1925”)(**2**))

yw 21 Mehefin 2004.

### Arbed

**3.** Er gwaethaf diddymu adran 193(2) o Ddeddf 1925 gan erthygl 2(c) o'r Gorchymyn hwn, mae unrhyw weithred a gyflawnir o dan yr adran honno o Ddeddf 1925 sydd mewn grym yn union o flaen dyddiad dod i rym y Gorchymyn hwn i barhau i fod yn effeithiol.

(**1**) 2000 p.37.
(**2**) 1925 p.20.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*
8 Mehefin 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym, ar 21 Mehefin 2004, adrannau 18, 20 a 46(1)(a) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ("y Ddeddf") ac, i'r graddau y mae'n ymwneud â diddymu adran 193(2) o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925, Ran I o Atodlen 16 iddi.

Mae adran 18 o'r Ddeddf yn galluogi awdurdodau mynediad i benodi wardeniaid mewn perthynas â thir mynediad er mwyn rhoi cyngor i ddefnyddwyr hawl mynediad a pherchnogion tir ac er mwyn sicrhau cydymffurfedd ag is-ddeddfau, â'r cyfyngiadau a nodir yn Atodlen 2 i'r Ddeddf ac ag unrhyw gyfyngiad neu waharddiad a osodir o dan Bennod II o'r Ddeddf.

Mae adran 20 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Gyngor Cefn Gwlad Cymru ("CCGC") i gyhoeddi cod ymddygiad i roi arweiniad i ddefnyddwyr yr hawl mynediad a phersonau sydd â buddiant yn y tir mynediad (megis ffermwyr, perchenogion y tir a chominwyr). Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i CCGC gymryd y camau hynny y mae o'r farn eu bod yn hwylus er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybod am rychwant, a modd, y mynediad i'r tir mynediad a bod y cyhoedd a'r personau â buddiant yn y tir mynediad yn cael gwybod am eu hawliau a'u rhwymedigaethau o dan yr hawl mynediad statudol.

Mae adran 46 o'r Ddeddf a Rhan I o Atodlen 16 iddi yn gweithredu diddymiadau yn dilyn darpariaethau Rhan I o'r Ddeddf. Mae adran 46(1)(a) o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer diddymu adran 193(2) o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 (sy'n caniatáu i berchenogion tir comin i wneud gweithred gyflwyno fel y daw'r comin yn ddarostyngedig i hawl mynediad ar gyfer awyr iach ac ar gyfer ymarfer y darperir ar ei gyfer yn adran 193(1) o Ddeddf 1925). Nid oes angen y pŵer hwn bellach am fod y pŵ er i gyflwyno mynediad dros dir sydd yn adran 16 o'r Ddeddf yn weithredol. Cychwynnwyd adran 16 o'r Ddeddf ar 30 Ionawr 2001 gan adran 103(2) o'r Ddeddf ac mae Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Cyflwyno Tir fel Tir Mynediad) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/135) (Cy.9) yn darparu'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno tir.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaeth arbed i alluogi gweithredoedd sydd eisoes yn bodoli ac a wnaed o dan Ddeddf 1925 i barhau mewn grym.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau'r Ddeddf y cyfeirir atynt yn y Tabl isod wedi cael eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru gan Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Adran(nau) neu Atodlen(ni)* | *Dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| 46(1)(b) | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 46(3) (yn rhannol) | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 57 (yn rhannol) | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 60 a 61 | 1 Tachwedd 2002 | O.S. 2002/2615 (Cy.253) (C.82) |
| 63 | 1 Ebrill 2004 | O.S. 2004/315 (Cy.33) (C.16) |

| *Adran(nau) neu Atodlen(ni)* | *Dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| 68 | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 70(1) a (3) | 1 Ebrill 2004 | O.S. 2004/315 (Cy.33) (C.16) |
| 70(2) a (4) | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 72 | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| Rhan IV (adrannau 82 i 93) (ac yn unol â hynny, Atodlenni 13, 14 a 15) | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 96 | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 99 | 30 Ionawr 2001 | O.S. 2001/203 (Cy.9)(C.10) |
| 102 (yn rhannol) | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| Atodlen 4, paragraffau 1, 4, 5 a 6 | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| Atodlen 6, paragraffau 1, 6 a 9(5) | 1 Ebrill 2004 | O.S. 2004/315 (Cy.33) (C.16) |
| Atodlen 6, paragraffau 18(a) a 19 (yn rhannol) | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| Atodlen 16, Rhan I a II (yn rhannol) | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| Atodlen 16, Rhan V a VI . | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |